SWYDDOGOL

Ein Cyf:

Dyddiad:

Annwyl

Cyfeirnod Llys:

Pam ydych chi'n derbyn y llythyr hwn?
Mae'r Llys wedi anfon cais at Cafcass Cymru sy'n ymwneud â chi. Swyddogaeth Cafcass Cymru yw helpu'r Llys i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir am eich plentyn/plant yn ddiogel ac er eu lles gorau nhw. Rydym yn dymuno gwneud yn siŵr eich bod chi'n gwybod beth sydd angen i chi ei wneud cyn y gwrandawiad Llys a beth fydd yn digwydd nesaf.

Mae rhywfaint o'r wybodaeth bwysig sydd ei hangen arnom i wneud yn siŵr eich bod yn cymryd rhan lawn yn yr hyn sy'n digwydd nesaf yn eisiau. Cysylltwch â'n swyddfa cyn gynted â phosibl drwy e-bost neu dros y ffôn, gan roi'r canlynol i ni:

- Rhif ffon
- Dyddiad geni

E-bost: cafcasscymrusouthwales@llyw.cymru

Rhif ffon: 03000 628877

Beth fydd yn digwydd nesaf?
1. Byddwn yn eich ffonio i ofyn am unrhyw faterion diogelwch a allai fod yn effeithio ar les eich plentyn/plant. Golyga hyn, os ydych yn poeni eich bod chi neu eich plentyn/plant mewn perygl o niwed.
2. Byddwch yn cael neges destun o leiaf un diwrnod cyn yr alwad, i roi gwybod i chi am y dyddiad a'r amser pryd y byddwn yn eich ffonio.
3. Byddwn yn gofyn am wybodaeth oddi wrth yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol i helpu gyda'r wybodaeth yr ydym yn ei rhoi i'r Llys.
4. Yn ystod y cyfweliad dros y ffôn, byddwn yn eich holi ynglŷn ag unrhyw wybodaeth y mae'r gwasanaethau i blant a'r heddlu wedi ei rhoi.
5. Byddwn yn ysgrifennu adroddiad i'r Llys o'r enw Adroddiad Ymholiadau Diogelu. Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn y mae angen i'r Llys ei wybod am unrhyw risg i'r plentyn/plant.

Ffôn • Tel: 03000 628877
Ffacs • Fax:
cafcasscymrusouthwales@gov.wales
Gwefan • Website:
http://cafcass.gov.wales

Cafcass Cymru • Cafcass Cymru
Llywodraeth Cymru • Welsh Government
Rhydycar • Rhydycar
Merthyr Tudful • Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

6. Os nad oes unrhyw bryderon o ran lles na diogelwch, mae'n debygol y bydd cyfraniad Cafcass Cymru yn dod i ben yng ngwrandawiad nesaf y Llys.

Pwyntiau eraill i'w nodi

Mae'n bosibl y bydd eich cyfweliad ffôn yn para tua 30-45 munud, felly os na fyddwch ar gael ar adeg a dyddiad eich galwad, mae'n bwysig cysylltu â ni cyn gynted â phosibl i drefnu apwyntiad gwahanol. Os na fyddwch yn gwneud hyn, mae'n bosibl y caiff yr adroddiad ei ffeilio heb i ni siarad â chi.

Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau na gwybodaeth arall atom (e.e. datganiadau) oni bai bod y Llys wedi gorchymyn i chi wneud hynny.

Fel sefydliad, rydym yn gofyn i ddefnyddwyr y gwasanaeth beidio â chofnodi'r trafodaethau sy'n digwydd, heb iddyn nhw ymgynghori â ni ymlaen llaw.

Fel arfer, bydd copi o'r adroddiad yn cael ei anfon at bob parti cyn yr Apwyntiad Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf. Mewn ymateb i'r coronafeirws, byddwn yn anfon adroddiadau trwy e-bost at y partïon sydd wedi gallu dilysu eu cyfeiriadau e-bost. Ni allwn anfon adroddiadau drwy'r post ar hyn o bryd. Gobeithio y byddwn ni wedi cysylltu â chi i gadarnhau eich cyfeiriad e-bost, ond os nad yw hyn wedi ei wneud, cysylltwch â'ch swyddfa Cafcass Cymru ar frys, dros y ffôn. Mae rhai amgylchiadau pan fydd adroddiad yn cael ei anfon i'r Llys yn unig; caiff hyn ei esbonio i chi yn ystod y cyfweliad dros y ffôn.

Rydym ni'n deall bod pandemig y coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar blant a'u teuluoedd a'i bod yn bosibl bod hyn wedi effeithio a tharfu ar y trefniadau a oedd ar waith yn flaenorol ar gyfer y plant. Bydd Cafcass Cymru a'r Llys yn dymuno symud pethau yn eu blaenau a dod o hyd i ffordd ymlaen. Fel arfer, mae'n well i'ch plentyn/plant os ydych yn gallu gwneud hyn trwy gytundeb â'r rhiant arall, ac felly atal eich plentyn/plant rhag bod yn gysylltiedig yn ddiangen.

Ar ein gwefan https://llyw.cymru/cafcass-cymru ceir gwybodaeth ddefnyddiol i rieni sydd wedi gwahanu, a all eich helpu i feddwl sut y gall achosion effeithio ar blant ynghyd â gwybodaeth i oedolion a phlant am broses y Llys. Mae hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am bandemig y coronafeirws a'r gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi hefyd pe baech yn edrych ar wefan o'r enw Co-Parent Hub, a ddatblygwyd ac a gynhelir ar gyfer cynulleidfa Saesneg gan Cafcass England, ond er hynny ceir awgrymiadau ac egwyddorion a fydd yn ddefnyddiol i chi a gwybodaeth i'ch helpu i reoli trefniadau ar gyfer eich plentyn/plant yn ystod pandemig y coronafeirws.

Os ydych yn teimlo eich bod mewn perygl neu wedi bod yn destun cam-drin domestig, gallwch gysylltu â llinell gymorth Byw Heb Ofn ar 0808 80 10 800 neu fynd i'r wefan yn https://llyw.cymru/byw-heb-ofn. Gwasanaeth am ddim yw hwn i fenywod a dynion ac mae hefyd yn rhoi cyngor i aelodau'r teulu a allai fod yn pryderu am rywun.

Ffôn • Tel: 03000 628877
Ffacs • Fax:
cafcasscymrusouthwales@gov.wales
Gwefan • Website:
http://cafcass.gov.wales

Cafcass Cymru • Cafcass Cymru
Llywodraeth Cymru • Welsh Government
Rhydycar • Rhydycar
Merthyr Tudful • Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

Eich gwybodaeth
Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae Cafcass Cymru wedi llunio Hysbysiad Preifatrwydd sy'n esbonio pa wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu, pam yr ydym yn ei chasglu, o ble yr ydym yn ei chasglu, yr hyn yr ydym yn ei wneud â'r wybodaeth, â phwy yr ydym yn ei rhannu, am ba hyd yr ydym yn ei chadw a sut yr ydym yn ei chadw'n ddiogel. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn nodi eich hawliau chi hefyd o dan GDPR y DU mewn cysylltiad â'ch gwybodaeth bersonol. Gallwch ddod o hyd i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan yn https://llyw.cymru/cafcass-cymru/sut-yr-ydym-yn-defnyddio-eich-gwybodaeth neu os hoffech gopi mewn fformat gwahanol, gallwch gysylltu â'ch Swyddfa Cafcass Cymru leol a byddwn yn rhoi copi i chi.

Bydd angen i chi gysylltu â'r swyddfa i roi gwybod i ni am unrhyw newid i'ch cyfeiriad, manylion cyswllt neu gynrychiolaeth gyfreithiol ac **os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich cyfeiriad e-bost yn gywir er mwyn cael eich copïau o adroddiadau'r llys yn electronig**.

Rhowch wybod i ni os oes angen cymorth arnoch o ran cyfathrebu neu ddehongli iaith, er mwyn i ni allu gwneud y trefniadau angenrheidiol ar eich cyfer.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.

Yn gywir

Cafcass Cymru

Ffôn • Tel: 03000 628877
Ffacs • Fax:
cafcasscymrusouthwales@gov.wales
Gwefan • Website:
http://cafcass.gov.wales

Cafcass Cymru • Cafcass Cymru
Llywodraeth Cymru • Welsh Government
Rhydycar • Rhydycar
Merthyr Tudful • Merthyr Tydfil
CF48 1UZ